Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☏ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Imelda Richardson
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

17 Ebrill 2015

Annwyl Imelda

**Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol**

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

## Cam Gofynnol 1.5

## Casgliad Cychwynnol – Rhannol Dderbyniol

| |
|---|
| 1.5 Dylid datblygu a chyhoeddi rhestr benodol o 'ddigwyddiadau byth' sy'n nodi'n glir arferion y mae'n rhaid rhoi'r gorau iddynt ar unwaith. Dylai'r rhestr gynnwys yr iaith a ddefnyddir, gofal a hylendid personol a tharfu ar hawliau dynol. |

Mae ymateb Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Cam Gofynnol hwn yn cydnabod yn ymarferol bod 'digwyddiadau byth" amlwg sy'n sbarduno camau gorfodi ar unwaith. Serch hynny, ac eithrio un cyfeiriad at atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, nid yw'n glir o'r ymateb hwn beth fyddai'r 'digwyddiadau byth' hynny, neu rai cyfatebol, ac nid yw'n dangos yn glir a ydynt yn y parth cyhoeddus ai peidio ar hyn o bryd. Barn y Comisiynydd yw y dylent fod yn y parth cyhoeddus ac y dylent fod yn gyson o safbwynt AGGCC a'r comisiynwyr ill dau, yn ogystal ag o safbwynt y darparwyr. Dylid cael eglurhad clir am bwrpas diffinio digwyddiadau'n 'ddigwyddiadau byth' a'r effaith mae digwyddiadau o'r fath yn ei chael ar unigolion.

Mae'r ymateb hefyd o blaid cynnwys digwyddiadau sy'n cyfateb i 'ddigwyddiadau byth' yn 'bwyntiau tyngedfennol' yn y Fframwaith Dyfarnu Ansawdd ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae hyn i'w groesawu. Mae integreiddio digwyddiadau byth penodol yn Fframwaith Dyfarnu Ansawdd arfaethedig AGGCC yn cynnig y posibilrwydd o osod ar sail statudol broses ar gyfer darparu gwybodaeth gyhoeddus am ffactorau gofal ac ansawdd bywyd annerbyniol mewn cartrefi gofal drwy Gymru, a hynny mewn ffordd gyson.

Mae'r ffaith fod AGGCC yn cydnabod rôl digwyddiadau byth, yn enwedig wrth ddatblygu'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd, yn cynnig cyfle i anfon neges glir at ddarparwyr gofal am y safonau gofal a ddisgwylir yng Nghymru. Gyda'u harweiniad hwy, ac ar y cyd â Chyngor Gofal Cymru,

Fforwm Gofal Cymru a'r comisiynwyr, dylai AGGCC ei gwneud yn glir y dylid eu hysbysu am bob digwyddiad byth o'r fath.

Nid yw ymateb AGGCC yn llwyddo i ddisgrifio beth fyddai'r digwyddiadau byth hyn yn y dyfodol. Yn hytrach, mae'n neilltuo'r cyfrifoldeb hwn i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Er bod 'Lle i'w Alw'n Gartref' yn dangos yn glir sut y dylid eu diffinio, mae ymateb AGGCC yn negyddu'r arweiniad y byddai'r Comisiynydd yn disgwyl i AGGCC ei roi i'r sector. Dylai AGGCC ei hun ymgynghori ynglŷn â'r digwyddiadau byth hyn a'u datblygu. Byddai'r Comisiynydd yn disgwyl iddi ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn ac aelodau'r teulu ochr yn ochr â phroses o groesgyfeirio nodweddion tebyg posibl â gwaith sydd ar y gweill megis y safonau gofal ar gyfer pobl hŷn a ddatblygwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

O ran hysbysu ynglŷn â digwyddiadau byth a gweithredu yn eu cylch, mae ymateb AGGCC yn pwysleisio pwysigrwydd crebwyll proffesiynol yr arolygydd wrth asesu'r risgiau i ddefnyddwyr y gwasanaeth, yr effeithiau posibl a gallu'r darparwr i wella pethau. Mae'n amheus a oes modd cyfri'r elfen olaf o'r rhain yn dderbyniol o ran rhoi hysbysrwydd cyhoeddus i ddigwyddiadau byth yn gyhoeddus a'r angen i weithredu'n ddi-oed i'w rhwystro rhag digwydd.

Dylid cyfeirio'n glir at y modd y bydd arolygwyr AGGCC yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng eu hasesiad risg a'u dyletswydd gyfreithiol i barchu ac i amddiffyn hawliau pobl hŷn o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.  Yn ogystal â hyn, dylid darparu sicrwydd pellach ynglŷn â rôl allweddol y crebwyll proffesiynol a ddisgrifir gan AGGCC yn benodol yng nghyswllt digwyddiadau byth.

Mae'r ymateb hefyd yn dangos parodrwydd i gynnwys Cyngor Gofal Cymru a'r comisiynwyr yn eu trafodaethau. Serch hynny, heb amserlen na thystiolaeth o gynllun clir i gydweithio'n rhagweithiol mae'n anodd asesu a fydd AGGCC yn cyflawni'r Cam Gofynnol hwn mewn gwirionedd.

**Cam Gofynnol 6.2**

**Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol**

Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu sylwadau.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol am sut mae'r adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno gwella parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb AGGCC i'r Cam Gofynnol hwn yn cyflwyno'r camau a gymerir ganddynt yn awr ac yn y dyfodol, megis: arolygiadau ansawdd bywyd, datblygu'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd, a system TGCh newydd fel petaent wedi'u cysoni'n uniongyrchol â Cham Gofynnol y Comisiynydd.

Croesewir y ffaith y bydd AGGCC yn defnyddio gwelliannau TGCh i gysoni data rheoleiddwyr a chomisiynwyr. Serch hynny, byddai'r ymateb hwn yn gryfach eto petai AGGCC wedi cyfeirio at gynlluniau i gysylltu'n lleol â chomisiynwyr, a gweithwyr proffesiynol eraill.

At hynny, mae diffyg manylder am sut y bydd yr ysgogwyr strategol i greu newid megis, fframweithiau arolygu newydd, y bwrdd cyfranogi cenedlaethol a'r rhai rhanbarthol cyfatebol, yn sicrhau y bydd AGGCC yn deall profiadau pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn well ac yn sicrhau bod y materion a godir yn cael sylw.

Byddai modd gwella'r ymateb petai AGGCC yn cyfeirio at fanylion penodol y Cam Gofynnol o ran sut y bydd y camau hyn yn effeithio ar ddealltwriaeth AGGCC ac yn gwella ansawdd bywyd pobl hŷn a'r gofal a gânt mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Er enghraifft, nid yw'n glir a oes trefn barhaus ar hyn o bryd i gasglu adborth gan bobl hŷn, ac os oes, sut mae hyn yn digwydd a sut mae'n cael ei defnyddio i sbarduno gwelliannau o hyd. Nid yw'n glir a fydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n well mewn model adroddiadau blynyddol newydd yn unol â disgwyliadau'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a roddir ar waith yn 2017.

Mae'n werth nodi na lwyddodd AGGCC i amlygu unrhyw ddulliau anffurfiol neu systematig o gydweithio â darparwyr cartrefi gofal, a hwythau'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd annibynnol am ansawdd cartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru. Byddai modd gwella'r ymateb drwy asesu'r dulliau a ddefnyddir gan AGGCC ar hyn o bryd i gysylltu â darparwyr cartrefi gofal a'r sector, er mwyn sicrhau bod AGGCC yn cefnogi darparwyr annibynnol i ddeall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, ac i gyflawni'r amcanion a nodwyd ganddynt i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu gwarchod, ac i hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

**Cam Gofynnol 6.3**

**Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol**

| |
|---|
| 6.3 Defnyddir aseswyr lleyg yn barhaus ac maent yn rhan ffurfiol a phwysig o'r broses arolygu. |

Mae ymateb AGGCC i'r Cam Gofynnol hwn yn cyfeirio at werthuso manteision aseswyr lleyg ar sail nifer o gynlluniau peilot ar raddfa fechan. Mae'r ymateb yn amlygu sut y byddai angen buddsoddiad sylweddol er mwyn ei ehangu i bob lleoliad i oedolion. Mae profiad y Comisiynydd wrth ymgymryd â 'Lle i'w Alw'n Gartref' yn ategu gosodiad AGGCC y byddai angen adnoddau ychwanegol i wireddu hyn, ac mae'r Comisiynydd yn fodlon codi'r mater yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog. Serch hynny, mae'n siomedig nad oes cyfeiriad at y posibilrwydd o ddefnyddio aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned yn aseswyr lleyg, i fonitro gofal iechyd a materion ehangach ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal.

Mae'r ymateb yn cyfeirio at Gynllun Cyfranogi, sy'n nodi strategaeth AGGCC i gynnwys ystod eang o bobl yn ei gwaith, a chysylltiad aseswyr lleyg ag arolygiadau thematig o awdurdodau lleol. Mae hyn i'w groesawu. Serch hynny, nid yw hyn gyfystyr â deall ansawdd bywyd, a gofal mewn cartrefi unigol drwy lygaid lleygwr. Gellid cryfhau'r camau hyn eto drwy ymrwymo i ymgysylltu'n rhagweithiol â Chynghorau Iechyd Cymuned i sicrhau gwell effeithiolrwydd wrth ddefnyddio aseswyr lleyg mewn cartrefi

gofal, ac i wireddu'r canlyniadau y mae'r Comisiynydd yn dymuno'u gweld ar gyfer pobl hŷn.

Croesewir y ffaith fod Prif Arolygydd AGGCC wedi ymrwymo i roi ymateb manylach i'r Cam Gofynnol hwn gan nad oes tystiolaeth i ddangos y bydd AGGCC yn gallu cyflawni'r Cam Gofynnol mewn gwirionedd; ac nad yw'r dewisiadau eraill yn lle aseswyr lleyg wedi'u cwmpasu na'u harchwilio'n ddigonol hyd yn hyn.

**Cam Gofynnol 6.9**

**Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol**

6.9 Bydd Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi, fel rhan o'i Hadroddiad Blynyddol, wybodaeth am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal, sy'n cynnwys y canlynol:

- Ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n gaeth i'w gwelyau
- Ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n byw gyda dementia
- Ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n byw gyda nam ar y synhwyrau
- Rhoi cynlluniau gofal ar waith mewn cartrefi gofal i bobl hŷn
- Cywirdeb datganiadau allanol gan ddarparwyr annibynnol
- Sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ledled Cymru

Mae ymateb AGGCC i'r Cam Gofynnol hwn yn darparu disgrifiad cryno o'r modd y gallai data gael eu casglu, a'r meysydd astudiaeth thematig a data cyfrifiad posibl. Serch hynny, nid yw'n ymrwymo i drosolwg ansoddol llawn ar ansawdd bywyd, a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Mae'r angen i ddilysu pob gwybodaeth angenrheidiol i'w groesawu ac yn ddealladwy; serch hynny, byddai ymateb AGGCC yn sylweddol gryfach o ddefnyddio amserlenni i ddangos y cynnydd disgwyliedig o ran casglu data ymhob maes.

Derbynnir y bydd angen archwilio'r camau a gymerir yn y dyfodol ynglŷn â sylwadau am gywirdeb datganiadau darparwyr allanol yng nghyd-destun y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, er mwyn cael eglurhad ynghylch pwerau AGGCC.  Bydd y Comisiynydd yn gofyn am ragor o wybodaeth am hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Croesewir yn gynnes y ffaith y bydd AGGCC yn cysylltu safonau hawliau dynol â'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd oherwydd, er nad oes cyfeiriad penodol at Hawliau Dynol yn y safonau gofynnol cenedlaethol nac yn rheoliadau AGGCC, mae cynnal y dyletswyddau cyfreithiol a fynegir yn y Ddeddf Hawliau Dynol yn swyddogaeth y mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys AGGCC, ei chyflawni.

Mae'n amlwg bod gan AGGCC drefniadau ar waith a'i bod yn cyflawni ei chyfrifoldebau gweithdrefnol mewn ffrydiau gwaith penodol megis Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a phan fydd pryderon yn codi ynghylch diogelu, i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu parchu a'u hamddiffyn o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

Serch hynny, mae newidiadau diweddar i Ddeddf Gofal 2014 yn gosod cyfrifoldebau hawliau dynol ar ddarparwyr wrth ymarfer "swyddogaeth o natur gyhoeddus" ac felly mae'n hanfodol bod y fframwaith dyfarnu ansawdd yn adlewyrchu sut y mae'r gofal sydd ar gael mewn cartrefi gofal yn cynnal y dyletswyddau sydd yn y Ddeddf Hawliau Dynol. Byddai hyn wedyn yn cynnig gwybodaeth gadarn a fyddai'n galluogi AGGCC i adrodd am sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ledled Cymru.

Mae angen rhagor o dystiolaeth er mwyn deall a fydd AGGCC yn gallu cyflawni'r Cam Gofynnol mewn gwirionedd, ac mae angen rhagor o wybodaeth am ba bryd bydd AGGCC yn gallu adrodd yn ôl am hyn.